**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 04 TACHWEDD 2020**

**Yn bresennol:** Dr Debra Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling (Dirprwy Gadeirydd); Mr David Powell; Mr Theodore Joloza; Mrs Julie May.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Miss Hannah Toor (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser Dechrau: 09:30**
**Amser Gorffen: 10:30**

**Ymddiheuriadau:** Dd/B

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 2. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2020

2.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 3. Arolwg Etholiadol Sir Fynwy – Adroddiad Drafft

3.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 27 Hydref 2020 gan y Swyddog Arolygon.

3.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad, a'r enwau arfaethedig ar gyfer wardiau etholiadol.

3.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad, yn amodol ar fân newidiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

**Cyfanswm cyffredinol yr aelodau – 46**

3.4. Enwau:

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. Rhoddir isod restr o'r enwau cytunedig yn Gymraeg ac yn Saesneg.

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Bulwark | Bulwark |
| Caerwent | Caer-went |
| Caldicot Castle | Castell Caldicot |
| Caldicot Cross | Caldicot Cross |
| Cantref | Cantref |
| Chepstow Castle | Castell Cas-gwent |
| Croesonen | Croesonnen |
| Crucorney | Crucornau Fawr |
| Devauden | Devauden |
| Dewstow | Dewstow |
| Drybridge | Drybridge |
| Gobion Fawr | Gobion Fawr |
| Goetre Fawr | Goetre Fawr |
| Grofield | Grofield |
| Lansdown | Lansdown |
| Larkfield | Larkfield |
| Llanbadoc and Usk | Llanbadoc a Brynbuga |
| Llanelly | Llanelli |
| Llangybi Fawr | Llangybi |
| Llanfoist and Govilon | Llan-ffwyst Fawr a Govilon |
| Llantilio Crossenny | Llandeilo Gresynni |
| Magor East | Dwyrain Magwyr |
| Magor West | Gorllewin Magwyr |
| Mardy | Y Maerdy |
| Mitchel Troy | Llanfihangel Troddi |
| Mount Pleasant | Mount Pleasant |
| Osbaston | Osbaston |
| Overmonnow | Overmonnow |
| Park | Y Parc |
| Pen Y Fal | Pen-y-fâl |
| Portskewett | Porth Sgiwed |
| Raglan | Rhaglan |
| Rogiet | Rogiet |
| Severn | Hafren |
| Shirenewton | Drenewydd Gelli-farch |
| St Arvans | St Arvans |
| **St Kingsmark*** | |
| Thornwell | Thornwell |

| | |
|---|---|
| Town | Y Dref |
| Trellech United | Tryleg Unedig |
| West End | West End |
| Wyesham | Wyesham |

*Mae'r enw Cymraeg ar gyfer St Kingsmark i'w drafod yn y cyfarfod ar 24 Tachwedd 2020 fel eitem Unrhyw Fater Arall. Nid oedd Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi ystyriaeth iddo yn yr Arolwg Cymunedol, felly fe'i cyflwynir i'w banel 'Enwau Lleoedd'. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud mewn da bryd cyn cyhoeddi.

## 4. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

4.1. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad i'r Comisiwn ar y trefniadau staffio presennol. Bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd ei benodi yn dechrau gyda'r Comisiwn ar 4 Ionawr 2021 ar yr amod bod yr holl wiriadau cyn-gyflogaeth yn cael eu cwblhau.

4.2. Gan fod y Dirprwy Brif Weithredwr wedi derbyn swydd barhaol gyda Llywodraeth Cymru, mae digon o arian yn y gyllideb i recriwtio dwy swydd cymorth tîm newydd. Bydd y rhain yn rhan o ailstrwythuro'r Comisiwn. Penodir i'r swyddi hyn ym mis Ionawr/Chwefror 2021. Bydd y ddwy swydd hyn yn cynorthwyo'r Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu a gwaith y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Bydd y rolau ar gontract cyfnod penodol o ddwy flynedd.

4.3. **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i gynnwys elfen ffurfiol y trefniant staffio mewn eitem materion yn codi.

4.4. Bydd adroddiadau Caerdydd, Caerffili a Wrecsam yn cael eu cyhoeddi'n electronig ar 5 Tachwedd, a dosberthir copïau caled ar ôl y cyfnod atal byr.

4.5. Bydd adroddiad Ynys Môn yn cael ei gasglu gan y Post Brenhinol ar 11 Tachwedd 2020 i'w dderbyn a chael ei gyhoeddi ar-lein ar 12 Tachwedd 2020.

4.6. Rhoddodd y Comisiynwyr Arweiniol ddiweddariad ar amryw friffiadau'r Prif Weithredwr. Mynegodd y Comisiwn ei ddiolchgarwch i'r Swyddogion Arolygon am y gwaith a wnaed.

4.7. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar yr arolwg etholiadol o Ben-y-bont ar Ogwr a'r ddeiseb i'r Senedd gan breswylwyr Hope a Chaergwrle.

## 5. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 24 Tachwedd 2020